CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 12fed o Chwefror 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Dylan Jarman,  a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Emrys Thompson.

   Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Eleri Puw a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) .

2. Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar yr 8fed o Ioanwr ar gynnig Cyng Robert Jones, a'I eilio gan Cyng. Elwyn Evans.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau** – cyfeiriwyd at ateb Cyngor Gwynedd dyddiedig 11eg Ionawr. Yng nghyswllt gwrych yn gor-dyfu ar Heol Llanegryn, roedd llythyr wedi ei ddanfon I berchenog 1, 2, a 6. Roedd hefyd yn gofyn a oedd problem rhywle arall, a nodwyd fod angen mwy o ymchwil i hyn. Addawodd Cyng Emrys Thompson ag Elwyn Evans adrodd erbyn y tro nesaf. Yng nghyswllt twll yn y ffordd ger Talyllyn, roedd addewid y byddai gwaith adgyweirio yn y dydodol agos.

   Yng nghyswllt gwaith ar lwybrau, cadarnhawyd fod ad-daliad o £300 I law. Hefyd, nodwyd y diffygion yn llwybrau Gamallt/Meriafel, ac roedd disgwyl I Gwyn Evans o Adran llwybrau Cyngor Gwynedd i gysylltu. Dywedodd y Clerc y byddai yn cysylltu ag ef.

b) **Torri gwair mynwentydd a'r cae chwarae** – adroddwyd yn llawn y manylion oedd i law gan ddau gontractor lleol a oedd wedi tendro ar gyfer y gwaith. Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd ar gynnig Cyng Elwyn Evans a'I eilio gan Cyng Steve Lewis a gyda phleidlais y Cynghorwyr i roi y gwaith i'r contractwyr presennol, sef Owain Williams ac Arwyn Davies. Roedd hyn ar yr un pris ag oedd yn flaenorol.

c) **Rheilffordd Talyllyn** – yng nghyswllt y syniad o gael wagen lechi ar gyrion y pentref, a'r amcanbris o £6000 oedd wedi ei grybwyll, roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Liz Porrett, ond nid oedd ymateb swyddogol i law hyd yma. Adroddwyd ei bod hi yn cael anhawster i gael atebion.

   **Safle treftadaeth** – atgoffwyd pawb o'r angen I gael taflenni yn y saesneg, a'r drafodaeth am hyn. Darllenwyd y gohebiaeth, a chytunwyd y byddai y Cyngor

Cymuned yn hapus I Reilffordd Talyllyn eu hail-brintio. Byddai'r Clerc yn cadarnhau wrth Jayne Myfanwy Mills.

d) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad, a byddai hyn ar yr agenda y tro nesaf.

e) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – cyfeiriwyd at yr angen i gael cynllun hyfforddiant ar y wefan. Darllenwyd nodyn drafft wedi ei baratoi, a chadarnhawyd y gallai'r Clerc fynd ymlaen i wneud hyn.

5. **Materion Cynllunio**

   Roedd dau gais am ganiatad hysbysebion i osod paneli gwybodaeth am Daith Mari Jones *(a oedd wedi ei danfon I'r Cynghorwyr eisoes) - sef*

   NP5/67/AD206A – Tir ger Pont Ty'n y Fach, Llanfihangel y Pennant

   NP5/67/AD5J – Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol, Dol Idris, Talyllyn**.**

   Cadarnhwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau yma.

6. **Materion Cyllid.**

Roedd 3 cais am arian i law, sef;

Urdd Gobaith Cymru - penderfynwyd, ar gynnig Cyng Elwyn Evans a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts a chefnogaeth unfrydol, i gyfrannu £50.

Elusen 'Dawns i bawb' – penderfynwyd peidio cyfrannu.

Marie Curie – penderfynwyd fod angen trafod yn y cyfarfod nesaf, ac yn y cyfamser i ofyn am fantolen.

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

   Roedd ymddiheuriad y tro hwn gan Cyng Beth Lawton.

8.**.Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Nid oedd adroddiad y tro hwn.

**9.Gohebiaeth.**

a) Nid oedd unrhyw ohebiaeth yng nghyswllt mynwent Llanfihangel y Pennant.

b) Nodwyd y gohebiaeth a ganlyn, a byddai'r Clerc yn eu dosbarthu;

   - Bwletin Mantell Gwynedd
   - Un Llais Cymru – digwyddiad ar y cyd gyda chymorth Cynllunio Cymru 7fed o Fawrth – dros zoom.  Ar gynnig Cyng Elwyn Evans a'I eilio gan

Steve Lewis, cytunwyd y byddai’r Cyngor yn talu y gost o £50 os oedd rhywun o’r Cyngor am fynychu.

c) Roedd e-bost gan Hafan Consulting yng nghyswllt gweithdy Celf yn Tywyn – fel rhan brosiect o’r rhaglen ‘Llewyrch I’n Llechi’. Roedd poster I’w roi fynny yn yn y Ganolfan I hysbysu hyn – i ddigwydd 22ain o Chwefror.

10. **Unrhyw fater arall**

- Nodwyd fod llwybr cyhoeddus ger y Gamallt wedi cau dros dro oherwydd ffens. Roedd angen ymchwilio i hyn, a byddem yn trafod y tro nesaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN ABERGYNOLWYN NOS LUN 11eg o Fawrth 2024 , 7.00y.h.**

---

CARTREF MARI JONES

Nodwyd swm o £15 yn y blwch rhoddion, a byddai’r Clerc yn bancio.

……………………………………………………………………………………………………………………

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 12th of February 2024 at 7.00pm in the Centre, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Dylan Jarman, and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Emrys Thompson.

Apologies were received from Cllr Eleri Puw and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council).

2. Statements of interest were invited for issues on the agenda, but no statement was received.

It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 8th of January were confirmed on the proposal of Cllr Robert Jones, seconded by Cllr. Elwyn Evans.

4. Matters arising

a) Highways/paths issues - reference was made to Gwynedd Council's reply dated 11th January. In relation to an overgrowing hedge on Llanegryn Road, a letter had been sent to the owner of 1, 2, and 6. It also asked if there was a problem elsewhere, and it was noted that more research was needed into this. Cllr Robert Jones and Elwyn Evans promised to report by next time. In relation to a hole in the road near Talyllyn, there was a promise that there would be repair work in the near future.

In relation to work on paths, it was confirmed that a refund of £300 was due. Also, the defects in the Gamallt/Meriafel paths were identified, and Gwyn Evans from Gwynedd Council's Paths Department was expected to get in touch. The Clerk said he would contact him.

b) Cutting the grass of cemeteries and the playing field - the details received by two local contractors who had tendered for the work were reported in full. Following a lengthy discussion, it was decided on the proposal of Cllr Elwyn Evans and seconded by Cllr Steve Lewis and with the vote of the Councilors to give the work to the current contractors, namely Owain Williams and Arwyn Davies. This was at the same price as previously.

c) Talyllyn Railway - in relation to the idea of having a slate wagon on the outskirts of the village, and the estimate of £6000 that had been mentioned, the Clerk had written to Liz Porrett, but no official response had yet been received. It was reported that she was having difficulty getting answers.

Heritage site - everyone was reminded of the need to have leaflets in English, and the discussion about this. The correspondence was read, and it was agreed that the Community Council would be happy for Talyllyn Railway to reprint them. The Clerk would confirm to Jayne Myfanwy Mills.

d) A tree damaging a wall - there was no update, and this would be on the agenda next time.

e) Councilor Training - reference was made to the need to have a training plan on the website. A draft note that had been prepared was read, and it was confirmed that the Clerk could proceed to do this.

5. Planning Matters

There were two applications for advertising permission to place information panels about the Mari Jones Walk (which had already been sent to the Councillors) - namely

NP5/67/AD206A – Land near Pont Ty'n y Fach, Llanfihangel y Pennant

NP5/67/AD5J – National Park Authority Car Park, Dol Idris, Talyllyn.

It was confirmed that there was no objection to these applications.

6. Finance Matters.

There were 3 requests for money, namely;

Urdd Gobaith Cymru - it was decided, on the proposal of Cllr Elwyn Evans and seconded by Cllr Gwynedd Roberts and unanimous support, to donate £50.

Charity 'Dance for all' - it was decided not to contribute.

Marie Curie - it was decided that it was necessary to discuss at the next meeting, and in the meantime to ask for a balance sheet.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

There was an apology this time from Cllr Beth Lawton.

8..Cllr.'s Report. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

There was no report this time.

9. Correspondence.

a) There was no correspondence in relation to Llanfihangel y Pennant cemetery.

b) The following correspondence was noted, and the Clerk would distribute them;

• Mantell Gwynedd Bulletin

• Un Llais Cymru - a joint event with the help of Planning Wales 7th March - via zoom. On the proposal of Cllr Elwyn Evans and Seconded by Steve Lewis, it was agreed that the Council would pay the cost of £50 if someone from the Council wanted to attend.

c) There was an email from Hafan Consulting in relation to an Art workshop in Tywyn - as part of a project from the 'Llewyrch i'n Llechi' programme. There was a poster to put up in the Ganolfan to advertise this - to happen on the 22nd of February.

10. Any other matters

• It was noted that a public path near the Gamallt was temporarily closed due to a fence. This needed to be investigated, and we would discuss it next time.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 11th March 2024, 7.00 p.m.

……………………………………………………………………………………………………………………………..

CARTREF MARI JONES

A sum of £15 was noted in the donation box, and the Clerk would bank.

………………………………………………………………………………………………………………………………

Arwyddwyd/signed.........................................................

Cadeirydd/ Chairman